Mae'r daith heriol a gwerth chweil hon yn Nyffryn Dwyryd yn cynnig sawl golygfa banoramig i'w gweld dros yr Afon Dwyryd a thros yr aber i Bortmeirion. Mae rhan o'r daith yn dilyn Rheilffordd Ffestiniog drwy goedlannau hardd ar un ochr i'r dyffryn, gan groesi Gwarchodfa Natur Coed Camlyn ar yr ochr arall.

## Manylion y daith

**Amcan o hyd:** 17km/10.5 milltir.

**Amcan o'r amser:** 6 awr.

**Map AO:** graddfa 1:25 000 Explorer OL18.

**Man cychwyn/gorffen:** maes parcio Pensarn yng nghanol Penrhyndeudraeth, SH611 391.

## Mynediad a chyfleusterau

**Parcio:** mae digon o le parcio ym maes parcio Pensarn oddi ar stryd fawr Penrhyndeudraeth, LL48 6BN.

**Bws:** gweler gwybodaeth am fysus ar www.gwynedd.llyw.Cymru

**Toiledau:** yn y maes parcio.

**Lluniaeth:** mae nifer o dafarnau, caffis a siopau ym Mhenrhyndeudraeth. Mae nifer o dafarnau hanesyddol y goets fawr ar hyd y llwybr ger Maentwrog.

## Nodwch

- Mae'r daith yn croesi'r **rheilffordd** ddwy waith ac yn dilyn **dwy ffordd-A** am gyfnodau byrion, felly rhaid bod yn ochelgar.
- Braslun yw'r map hwn. Argymhellir defnyddio'r **map AO** uchod.
- Cofier gadw at y Côd Cefn Gwlad: ***Parchwch, Diogelwch, Mwynhewch*** naturalresources.wales/media/3598/cod-cefn-gwlad.pdf



Eryri
Mynyddoedd a Môr

Cylchdaith

# 16 Maentwrog





## Cyfarwyddiadau'r gylchdaith

O faes parcio Pensarn ym Mhenrhyndeudraeth, dilynwch y ffordd wrth iddi godi i fyny'r bryn nes y croeswch chi linell Rheilffordd Ffestiniog; trowch i'r dde gan ddilyn yr arwyddion. Mae'r llwybr yn croesi drwy dir fferm sy'n gyfochrog â llinell Rheilffordd Ffestiniog, cyn mynd i mewn i dirwedd coedwig blanedig ar y bryniau i'r gogledd o Afon Dwyryd. Fe ddewch allan wrth Lyn Mair cyn cerdded i lawr i briffordd yr A496, a chroesi i bentref Maentwrog. Dilynwch y ffordd fechan gydag arwydd am Gellilydan ac yna yr arwyddion am Lwybr Arfordir Cymru drwy warchodfa natur Coed Camlyn, cyn mynd â chi i lawr eto i orsaf bŵer Maentwrog. Yn syth mae'r llwybr yn dringo i fyny eto'n serth, gan basio drwy'r blanhigfa goedwig ac ymlaen gyda glannau'r gronfa yn Llyn Tecwyn Uchaf. Yna, mae'n dod yn ôl i lawr at Bont Briwet i ailymuno â'r man cychwyn ym Mhenrhyndeudraeth.


1


2


3

## Mannau o ddiddordeb

Roedd **Plas Tan-y-Bwlch** ①, sy'n sefyll yn uchel ar y bryn yn edrych dros bentref Maentwrog yn gartref i'r teulu Oakeley, oedd yn berchnogion chwareli a thir pwysig, ymysg y cyfoethocaf yng ngogledd Cymru. Priodas yr aeres â Sais cyfoethog o'r enw William Oakley o Swydd Stafford ym 1789 oedd yn gyfrifol am gychwyn gweddnewidiad yr ystâd. Roedd llawer o'i lwyddiant wedi dod i'w ran yn dilyn achos cyfreithiol o bwys pan aeth yr Oakleys â'r Arglwydd Rothchild i'r llys am dresmasu ar dir Tan y Bwlch wrth chwilio am fwynau a llechi. O ganlyniad i hyn, daeth Chwarel yr Oakley yn chwarel danddaearol fwya'r byd, yn cyflogi dros 1,600 o ddynion. I symud y llechi roedd rhaid ei gludo i lawr yr afon, a dilynwyd hyn gan ddefnyddio rheilffyrdd ac adeiladu Rheilffordd Ffestiniog.

Mae gan y Plas gaffi a gerddi arbennig Fictorianaidd wedi'u tirlunio. Cewch rhagor o wybodaeth ar www.eryri-npa.gov.uk/cym/study-centre.

Adeiladwyd pentref **Maentwrog** ② gan yr Oakleeys fel pentref ystâd. Mae'r pentref yn cynnwys un o dafarnau'r goets fawr hynaf Cymru. Ailadeiladwyd eglwys Twrog Sant, gyda'i dwr murfylchog ym 1814 ar safle'r eglwys gynharach. Mae'n fan braf i aros am seibiant ar y daith; chwiliwch am garreg Twrog ger y cyntedd.

Rhwng pentref Maentwrog a'r daith yn ôl i waelod y dyffryn, mae'r llwybr yn croesi drwy **Gwarchodfa Natur Genedlaethol Coed Camlyn** ③. Gweddillion yw'r llethrau coediog hyn o Goedlannau Derw'r Iwerydd oedd unwaith yn gorchuddio llawer o arfordiroedd Ewrop. Mae'r warchodfa'n gartref i nifer o redyn, mwsogl, llysiau'r afu, goferllys a ffyngau prin sy'n weddillion yr Oes Iâ ddiwethaf. Mae'r coetir hefyd yn gynefin delfrydol i adar, trychfilod a mamaliaid – yn enwedig ystlumod.

**Rheilffordd Ffestiniog** ④, a agorwyd yn 1836, yw rheilffordd gul hynaf y byd. Mae'n rhedeg am dair milltir ar ddeg o Harbwr Porthmadog i dref chwarel llechi Blaenau Ffestiniog. Ar hyd ei thaith mae'n dringo dros 700 o droedfeddi i'r bryniau uwch Penrhyndeudraeth. Adeiladwyd argloddiau o flociau llechi a cherrig er mwyn i'r wagenni allu rhedeg i lawr yr allt gyda grym disgyrchiant. Mae'r rheilffordd yn dal i redeg tri o'r locomotifau a'r cerbydau gwreiddiol, gan gynnig taith hanesyddol yn glynu ar ochr y mynydd- www.festrail.co.uk


4

www.ymweldageryri.info

A challenging and rewarding walk around the Dwyryd River valley with stunning panoramic views of Snowdonia and over the river's estuary across to Portmeirion. Part of the walk follows the iconic Ffestiniog Railway through beautiful woodland on one side of the valley, and crosses the Coed Camlyn Nature Reserve on the other.

## Walk details

**Approx. distance:** 17km/10.5 miles.

**Approx. time:** 6hrs.

**OS Map:** Scale 1:25 000 Explorer OL18.

**Star/finish:** Pensarn car park in the centre of Penrhyndeudraeth, SH611 391.

## Access and amenities

**Parking:** ample parking at the Pensarn car park off the High Street in Penrhyndeudraeth, LL48 6BN.

**Bus:** see information for buses on www.gwynedd.llyw.Cymru

**Toilets:** in the car park.

**Refreshment:** There are numerous pubs, cafés and shops in Penrhyndeudraeth. There are a number of historic coaching inns along the route near Maentwrog.

## Please note

- This walk crosses a **railway line** twice and follows **two A-roads** for short periods, so please be very careful.
- This map is a rough guide only. We recommend you use the above **OS map**.
- Remember to adhere to the Countryside Code: ***Respect, Protect, Enjoy*** naturalresources.wales/media/1369/the-countryside-code.pdf




Snowdonia
Mountains and Coast


# 16 Maentwrog Circular walk





## Walk directions

From the Penlan car park in Penrhyndeudraeth follow the road up the hill until you cross the Ffestiniog Railway line and turn right following the signage. The trail crosses through farmland parallel with the Ffestiniog Railway line, before entering the planted-wood landscape on the hills to the north side of the Afon Dwyryd. Emerge at Llyn Mair before descending to the main A496 road and crossing to the village of Maentwrog. Follow the minor road signposted to Gellilydan and then the signage for the Wales Coast Path through the Coed Camlyn Nature Reserve, before descending to the power station at Maentwrog. Immediately then the walk climbs again steeply passing through a forestry plantation, skirting the reservoir at Llyn Tecwyn Uchaf until descending to Pont Briwet to re-join the starting point at Penrhyndeudraeth.




## Points of interest

**Plas Tan-y-Bwlch** mansion house, ① perched high on the hill overlooking the village of Maentwrog, was the home of the Oakeley family who were important quarry and landowners, among the wealthiest in North Wales. The marriage of the heiress to a wealthy Englishman named William Oakeley from Staffordshire in 1789 began the transformation of the estate. Much of this success was due to a landmark legal case when the Oakleys sued Lord Rothschild for trespassing on Tan-y-Bwlch land in search for minerals and slates. This led to the Oakeley Quarry becoming the largest subterranean quarry in the world, employing over 1600 men. To move the slate required shipping it down the river, this was followed by the use of railways and the construction of the Ffestiniog Railway.

The Plas has a café and fine Victorian landscaped gardens. Visit **www.eryri-npa.gov.uk/study-centre** for more information.

The village of **Maentwrog** ② was built as an estate village by the Oakeleys, with a rebuilding in the late 19th century including the church and a new school. The village contains one of the oldest coaching inns in Wales. St Twrog's church, with its battlemented tower, was rebuilt in 1814 on the site of the earlier church. Look for Twrog's stone by the porch.

Between the village of Maentwrog and your return to the valley bottom, the route crosses through the **Coed Camlyn National Nature Reserve** ③. These forested slopes are the remnants of the Atlantic Oakwoods that once covered much of the coasts of Europe. The reserve is home to many rare ferns, mosses, liverworts, lichens and fungi that are relicts of the last Ice Age. The woodlands also provide ideal habitat for birds, insects and mammals, particularly bats.

The **Ffestiniog Railway** ④ is the oldest narrow gauge railway in the world, opened in 1836. It runs for thirteen miles from Porthmadog Harbour to the slate quarrying town of Blaenau Ffestiniog. It climbs over 700 feet to the hills above Porthmadog. En-route you will pass below an embankment built of stone and slate blocks, these were constructed in order that the wagons could be run by gravity downhill. The railway still operates three of the original locomotives and carriages, providing a historic journey clinging to the side of the mountain - **www.festrail.co.uk**




www.visitsnowdonia.info